



Ein Treftadaeth
Our Heritage

A494 & Llanuwchlyn

Castell Carndochan Carndochan Castle

Er nad Castell Carndochan yw'r un hawsaf i'w gyrraedd, mae'n werth yr ymdrech. Ar gopa creigio yn edrych dros Lyn Tegid, hawlia'r castell un o'r golygfeydd gorau yn Eryri. Mwy na thebyg mai Llywelyn Fawr a'i hadeiladodd rhwng 1215 a 1230 ac roedd yn amddiffyn ffin ddwyreiniol Gwynedd. Ceir olion tri phrif adeilad: tŵr crwn, tŵr siâp D (sy'n nodwediadol o gestyll Llywelyn Fawr) a neuadd betryal yn y canol. Mewn mannau, mae'r adeiladau a'r rhagfuriau'n ymgorffori cerrig brig creigio y copa fel amddiffynfeydd naturiol.

Mae castell Carndochan ar dir preifat; mae'r perchenog yn hapus i bobl ymweld ag ef cyhyd â'u bod yn cysylltu ag ef am ganiatâd ymlaen llaw (Mr Gwyn Roberts, Fferm Dolhendre, 01678 540348). 2 filltir i'r gogledd-orllewin o Llanuwchlyn

It is not the easiest of castles to visit, but Carndochan is worth the effort of the walk. Sitting on a rocky peak overlooking Llyn Tegid, Carndochan commands one of the best views in Snowdonia. Probably built by Llywelyn the Great between 1215 and 1230, it defended Gwynedd's eastern border. There are traces of three main buildings: a round tower, a D-shaped tower (characteristic of Llywelyn the Great's castles) and a central rectangular hall. In places, the buildings and ramparts incorporate the summit's rocky outcrops as natural defences.

Carndochan castle is on private land; the owner is happy for people to visit so long as they contact him for permission beforehand (Mr Gwyn Roberts, Dolhendre Farm, 01678 540348). 2 miles north-west of Llanuwchlyn

